

**CYMRYD RHAN:
SAFONAU
A HELP
AR GYFER GRWPIAU TENANTIAID A
PHRESWYLLWYR**

Taflen i denantiaid a landlordiaid

Wedi'i pharatoi gan Ffederasiwn Tenantiaid Cymru, TPAS Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i chymeradwyo gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru.





1. BETH YW PWRPAS Y DAFLEN HON?

Ffederasiwn Tenantiaid Cymru, TPAS Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru sydd wedi cynhyrchu'r daflen hon ar gyfer pobl sy'n ystyried sefydlu grwp tenantiaid a phreswylwyr, aelodau grwpiau sydd eisoes wedi'u sefydlu, a hefyd i landlordiaid.

Amcanion y daflen, yn arbennig, yw:

- esbonio sut y gall tenantiaid a phreswylwyr gymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu cartrefi a'u cymunedau
- dangos beth ddylai grwp ei wneud i wneud yn siwr bod y landlord yn ei gydnabod ac yn ei helpu
- cyngori landlordiaid ar sut i roi'r help hwnnw.

2. PRIF EGWYDDORION

Dylai 'landlordiaid cymdeithasol' - (cyngorau lleol a chymdeithasau tai) - a'u tenantiaid ddangos parch i'w gilydd, ymddiried yn ei gilydd a bod yn barod i gydweithio â'i gilydd. Wrth wneud, dylai'r landlord a'r tenant dderbyn yr egwyddorion hyn:

- Cydweithio fel partneriaid â'i gilydd, trwy fod yn agored, teg a chan gynnwys pawb
- Mae datblygu a chynnal cymunedau'n bwysig iawn er lles pob ardal





- Cael tenantiaid a phreswylwyr i gymryd rhan - fel unigolion ac mewn grwpiau. Mae hynny'n bwysig i ddatblygu cymdeithas ddemocrataidd
- Cyfle cyfartal i bawb. Efallai y bydd angen trefniadau arbennig i helpu rhai pobl i gymryd rhan.

3. SUT I GYMRYD RHAN

Dylai'r tenantiaid eu hunain benderfynu pa lefel o gymryd rhan fyddai fwyaf addas iddyn nhw. Gallai amrywio o ardal i ardal. Mae sawl dewis:

Cael Gwybodaeth: bod tenantiaid yn cael gwybod am benderfyniadau a phroblemau

Ymgynghori: yn cael rhoi eu barn am benderfyniadau a phroblemau

Cymryd rhan: cael cyfle i benderfynu beth sy'n cael ei drafod, a chael bod yn rhan o'r penderfyniad

Partneriaeth: cael cyfle i benderfynu, rhannu gwybodaeth a syniadau ac i fod yn gyfrifol am yr arian y bydd gan y grwp yr hawl i'w wario.

Mae gweddill y daflen yn canolbwyntio ar gymryd rhan trwy grwpiau ffurfiol. Cofiwch, mae ffyrdd eraill i denantiaid gymryd rhan, heblaw trwy grwpiau ffurfiol.

4. MATHAU O GRWPIAU TENANTIAID A PHRESWYLWYR

Dylai landlordiaid annog pob math positif o gymryd rhan, gan ddiwynnu ar beth sydd ei angen ar y tenantiaid. Dyma rai mathau o grwpiau y gallech eu defnyddio:

Ffederasiwn

Grwp o gymdeithasau tenantiaid a phreswylwyr a phaneli lleol sy'n dod at ei gilydd i greu ffederasiwn - mewn ardal arbennig neu denantiaid un landlord. Dylai fod ganddynt 'gylch gwaith' (terms of reference)

Paneli Tenantiaid a Phreswylwyr

Grwpiau tenantiaid a phreswylwyr, a thenantiaid unigol wedi'u hethol, i ddod at ei gilydd i ffurfio panel tenantiaid ardal neu landlord. Dylent hwythau hefyd gael 'cylch gwaith', ac o bosibl gynrychiolydd y landlord ar y panel

Cymdeithas Tenantiaid a Phreswylwyr

Tenantiaid a phreswylwyr yr ardal yn ffurfio cymdeithas, gyda swyddogion wedi'u hethol a chyfansoddiad

Grwpiau Tai â Chymorth/Gwarchod

Mae yna bob math o dai â chymorth i breswylwyr. Bydd gofyn i'r trefniadau cymryd rhan fod yn hyblyg ac yn addas i bob sefyllfa e.e. cyfarfodydd tai, grwpiau cynrychioli





Grwpiau anffurfiol a dros dro

Mae yna sawl math o grwp llai parhaol, gan gynnwys grwpiau sydd wedi'u creu i ddelio ag un problem. I fod yn effeithiol, gallai fod yn syniad da llunio 'cyloch gwaith'. Gallech drefnu dyddiau a digwyddiadau cymdeithasol i drafod problemau tai a chymunedol mewn awyrgylch hamddenol. Ffyrdd eraill o'i gwneud hi yw dewis 'tenant allweddol' i fod yn gyswllt rhwng yr ystad/ardal a'r landlord.

5. SAFONAU / AMODAU SYLFAENOL

Dylai pob grwp tenantiaid a phreswylwyr fod mor gynrychioliadol â phosibl, gyda *chyfansoddiad, cylch gorchwyl neu set o safonau neu reolau*. Rhaid iddynt gynnwys y safonau canlynol:

- bydd pob tenant a phreswlydd mewn ardal arbennig yn cael bod yn aelod
- bydd cyfarfodydd cyffredinol yn cael eu cynnal yn rheolaidd
- bydd yr aelodau'n ethol pwyllgor a swyddogion
- bydd grwp bach yn ymrwymo i dyfu ac i ddod yn gymdeithas gyda swyddogion wedi'u hethol
- bydd gwybodaeth yn cael ei phasio ymlaen i'r aelodau i gyd
- bydd yr aelodau i gyd yn cael gwybod am bob hyfforddiant, seminar ac ati

- bydd cyfle cyfartal i bawb, a bydd datganiad o hynny
- bydd polisi cwynion yn cael ei lunio a fydd ar gael i bob aelod.

Dylai landlordiaid helpu grwpiau i gyrraedd y safonau. Gallai'r help hwnnw fod yn arian, cyngor neu esiamplau o ddogfennau. Gallwch ofyn i TPAS Cymru am esiamplau o gyfansoddiadau, 'cylchoedd gwaith' a datganiadau polisi (ewch i'r dudalen ôl i weld rhestr o gyfeiriadau).

6. SAFONAU AR GYFER CYFARFODYDD EFFEITHIOL

Mae cynnal cyfarfodydd rhwng y tenantiaid a chyda'r landlord yn rhan bwysig o gymryd rhan.

Dylai grwpiau tenantiaid a landlordiaid wneud yn siwr:

- bod y cyfarfod yn cael ei hysbysebu gyda digon o rybudd
- bod y cyfarfod yn cael ei gynnal mewn lle addas ac ar amser cyfleus
- bod y cyfarfod yn agored ac yn ddemocrataidd
- bod pawb oedd yn y cyfarfod a phawb arall yr effeithir arnynt yn cael gwybod beth yw canlyniad y cyfarfod.

Dylai landlordiaid roi lwfansau, trefnu cludiant neu roi help technegol i bobl sydd ag angen help arnynt i gymryd rhan, er enghraifft lwfans gwarchod plant neu drefnu cyfieithwyr, arwyddwyr neu gymorth clyw.





7. SAFONAU'R WYBODAETH

I gymryd rhan lawn a llwyddiannus, mae'n rhaid cael gwybodaeth. Mae hyn yn gyfrifoldeb i'r landlord ac i'r grwpiau Tenantiaid a Phreswylwyr. Dylai'r ddau ofalu bod y wybodaeth:

- mewn iaith glir a hawdd ei deall
- ar gael yn rhwydd, gan ddefnyddio print bras, casetiau, cyfieithiadau ac ati os oes angen
- ddim yn defnyddio iaith hiliol, rhywiaethol nag yn mynegi unrhyw fath arall o ragfarn
- yn amserol ac yn berthnasol, yn unol ag angen pobl.

Dylai landlordiaid roi'r wybodaeth ganlynol, o leiaf, i grwpiau:

- ei strategaeth i gael tenantiaid i gymryd rhan
- y polisiau a'r trefniadau i gael tenantiaid i gymryd rhan
- Y Compact Cyfranogiad Tenantiaid ac unrhyw gompact lleol neu arbenigol (Cytundebau rhwng landlordiaid a grwpiau tenantiaid yw compactau sy'n esbonio sut y byddan nhw'n gweithio gyda'i gilydd)
- rhestr o grwpiau Tenantiaid a Phreswylwyr eraill, a'u cyfeiriadau
- y cyswllt staff perthnasol a/neu'r swyddog cyfranogiad tenantiaid.

8. HELP GAN Y LANDLORD

Mae trefnu bod tenantiaid yn cael cymryd rhan yn gam pwysig erbyn hyn wrth ddatblygu'r gwasanaethau o'r safon orau y mae ar denantiaid eu hangen a'u heisiau. Mae landlordiaid cymdeithasol yn gallu cefnogi tenantiaid i gymryd rhan trwy grantiau, hyfforddiant, cymorth staff ac eraill. Yn benodol, dylai landlordiaid:

- ofalu bod ganddynt y trefniadau, y staff a'r adnoddau i allu cefnogi'u polisïau ar gael tenantiaid i gymryd rhan
- cytuno ar raglen hyfforddi gyda'r grwpiau tenantiaid i'w cael i ddeall manteision a chyfrifoldebau cymryd rhan
- rhoi hyfforddiant i staff, cynghorwyr ac aelodau'r bwrdd fel bod y gweithwyr, yr ymgynghorwyr a'r cynghorwyr i gyd yn deall y polisïau a'r trefniadau ar gael tenantiaid i gymryd rhan
- sicrhau bod cynrychiolwyr tenantiaid a phreswylwyr ym mhob cynhadledd, seminar ac ati sy'n trafod pethau sy'n effeithio ar y tenantiaid a'r preswylwyr hynny.

Dylai help y landlord gynnwys hefyd:

- help ariannol rhesymol e.e. grantiau cychwyn, grantiau blynyddol a chyllidebau ystad
- cyfleusterau, er enghraifft, adeiladau a chyfarpar, offer swyddfa, ffotocopiö a help i rannu taflenni newyddion
- cyngor, a chefnogaeth ar gyfer datblygu cymunedol, a rhwydweithiau tenantiaid lleol.





9. ATEBOLRWYDD

Am help a chydabyddiaeth y landlord, dylai grwpiau ddangos eu bod yn cwrdd â'r safonau sylfaenol (yn Adran 5). Ar ôl pob cyfarfod cyffredinol blynyddol, dylai'r landlord gael y canlynol:

- gwybod bod y cyfarfod blynyddol wedi cael digon o gyhoeddusrwydd
- manylion y pwyllgor a'r swyddogion sydd wedi'u hethol
- manylion unrhyw newidiadau i'r cyfansoddiad a'r 'cylch gwaith'
- copiâu o gofnodion/nodiadau y flwyddyn flaenorol
- manylion gwaith y grwp yn ystod y flwyddyn aeth heibio
- rhaglen y grwp ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Dylai pob un o'r pethau hyn fod ar gael i bob tenant hefyd ar bob adeg rhesymol. Mae'n bosib y byddai'r landlord am gynnal 'archwiliad' o'r grwp o dro i dro i wneud yn siwr ei fod yn cadw at y safonau. Rhaid i'r grwp gytuno i hyn, cyn belled â'i fod yn cael rhybudd rhesymol.

10. HELP A CHYNGOR

Efallai'ch bod yn credu y byddai sefydlu a chynnal grwp tenantiaid yn ormod o faich o ran amser ac ymdrech. Does dim rhaid iddo fod, gan fod llawer o help ar gael. Yn ogystal â chael help gan eich landlord, mae nifer o gymdeithasau a chyrrff yn bod fydd yn gallu rhoi cyngor arbenigol i chi. Y prif gymdeithasau sy'n rhoi cyngor a help i grwpiau tenantiaid a phreswylwyr yng Nghymru yw:

Gwasanaeth Cyngori ar Gyfranogiad Tenantiaid (TPAS Cymru)

Transport House
1 Cathedral Road
Caerdydd,
CF11 9SD
029 2023 7303 (Y De)

Ty Blodwel
Broad Street
Cyffordd Llandudno
Conwy, LL31 9HL
01492 593046 (Y Gogledd)

Ffederasiwn Tenantiaid Cymru

Siambr Milbourne
Stryd Glebeland
Merthyr Tudful
CF47 8AF
01685 723922





Mae cyrff a chymdeithasau eraill yn rhoi help ar faterion cymryd rhan hefyd:

Cyngor ar sut i gymryd rhan i denantiaid sy'n byw mewn tai â chymorth

Cymorth Cymru

Tŷ Baltic
Sgwar Mount Stuart
Cardiff, CF10 5FH
029 2049 1513



Cyngor ar sut i gymryd rhan i denantiaid du//lleiafrifoedd ethnig

BME Tenants and Residents Advisory Network UK

173 Lozells Road
Birmingham, BR19 1RN
0121 551 5760



Tai Pawb - dyma gymdeithas yng Nghaerdydd a fydd yn cychwyn ar ei gwaith yn Ebrill 2005. Cysylltwch â Chyfarwyddiaeth Dai Llywodraeth y Cynulliad i gael ei manylion.



Cyngor i lesddeiliaid, gan gynnwys eu hawl i gael gwybodaeth

Leasehold Advisory Service (LEASE)

70-74 City Road,
Llundain, EC1Y 2BJ
0845 345 1993